

Red Meat Development Programme

G4ce News

Getting to Grips with Grazing Grass



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Welcome to the introductory newsletter from the G4ce project, Getting to Grips with Grazing Grass.

The project is concerned with encouraging farmers to maximise their grass output. Managed well, grazed grass IS the cheapest feed at around 5-7p/kg DM, but using that efficiently is key. We've all seen how quickly grass grows in the spring and then been in the situation later in the season where grass in grazing fields is over long and going to seed. These fields often have to be topped, as stock will not eat it and the grass has lost quality.

Maximising your grass utilisation is a balance between grazing it as frequently as possible, not damaging the ley, with no loss of animal production. This can be difficult to achieve when ryegrass tillers maintain a maximum of three leaves. When a fourth appears the first will die off and get wasted, unless it has already been eaten. On average a new grass leaf will grow every 11 days, making it essential to graze the old leaves before they are lost from production. It is estimated that 50-75% of the grass grown in Wales may be wasted. This represents a huge cost to the system - to buy concentrates of the same feed value as good quality grazed grass (12ME, 18%CP) could cost £200-250/tonne. Wasting grass is like buying a bag of feed and throwing half a bag away.

In the 1980s, research showed that grass and animal performance can be optimised by grazing swards between recommended height guidelines. Some farmers have put this into practice, showing how using the guidelines improves animal performance and increases sward density and quality in late season.

Two Farming Connect RMDP demonstration farmers; Richard Rogers, Bodrida, Anglesey and Keith Williams Hendy, Powys have taken up the challenge of improving grass utilisation and reducing waste by measuring grass and using these measurements to manage their grazing.

The farmers are working with the Grassland Development Centre Team from IBERS to look at different methods of measuring grass and to compare grass growth on a new and an old ley. The results will be used to help highlight how to reduce grass waste and increase efficiency.



G4ce Farmers: Keith Williams and Richard Rogers

There is a wide variety of methods of measuring grass height, from using (empty or full) beer cans, marks on wellies, rulers, sward sticks to computerised quad bike mounted kit and we will be looking at these to see what works best for different people.

We are looking for more farmers to take part in this project. Please do let the Grassland Development Centre team know if you'd like to get involved.

We will feature a grazing question in each newsletter so please send us your questions, ready for our next newsletter.

Location of G4ce Demonstration Farms



Glossary:

DM:	dry matter
ME:	metabolisable energy
CP:	crude protein
RMDP:	Red Meat Development Programme

For more information on this project contact Sue Buckingham, Grassland Development Centre, IBERS, Aberystwyth, 01970 823058, e-mail seb2@aber.ac.uk

The Red Meat Development Programme is delivered by Hybu Cig Cymru (HCC) on behalf of Farming Connect. For further information, ring 01970 625050 or visit www.hccmpw.org.uk

April 2011



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Rhaglen Datblygu Cig Coch Newyddion G4ce Mynd i'r Afael â Glaswellt Pori



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Croeso i'r cylchlythyr cyntaf gan brosiect G4ce, Mynd i'r Afael â Glaswellt Pori.

Bwriad y prosiect yw cymell ffermwyr i wneud y gorau o gynyrrch eu glaswellt. Wedi'i reoli'n dda, glaswellt pori YW'R porthiant rhataf oddeutu 5-7c/kg CS, ond rhaid ei ddefnyddio'n effeithlon. Mae pawb ohonom wedi gweld pa mor gyflym y bydd glaswellt yn tyfu yn y gwanwyn, ac yn hwyrach yn y tymor wedi gweld glaswellt yn y caeau pori yn rhy uchel ac yn mynd i had. Yn aml, rhaid brigdorri'r caeau hyn, am na fydd anifeiliaid yn bwyta glaswellt sydd wedi colli ansawdd.

Mae gwneud y defnydd gorau o'ch glaswellt yn golygu ei bori cyn amled â phosibl, heb ddfrodi'r tir glas, a hynny heb amharu ar gynhyrchedd yr anifeiliaid. Gall hyn fod yn anodd pan fo cadeiriau rhygwellt yn gyfyngedig i dair deilen. Pan fo pedwaredd ddeilen yn ymddangos, bydd y gyntaf yn gwywo ac yn cael ei gwastraffu, oni chaiff ei bwyta. Ar gyfartaledd, bydd deilen glaswellt newydd yn tyfu bob 11 diwrnod, sy'n golygu ei bod yn hanfodol pori'r hen ddail cyn eu colli. Y gred yw bod 50-75% o'r glaswellt sy'n cael ei dyfu yng Nghymru'n cael ei wastraffu. Mae hyn yn gostus dros ben - fe allai prynu dwysfwydydd â'r un gwerth porthiant â glaswellt pori o ansawdd da (12ME, 18%PA) gostio £200-250/tunnell fetrig. Mae gwastraffu glaswellt yr un fath â phrynu cydaid o ddwysfwyd a thafllu hanner y cydaid i fwrdd.

Yn y 1980au, dangosodd ymchwil fod modd cael y perfformiad gorau posibl gan laswellt ac anifail trwy bori tir glas â thyfiant o uchderau penodol. Mae rhai ffermwyr wedi gwneud hyn, gan ddangos sut mae defnyddio'r canllawiau'n gwella perfformiad anifeiliaid ac yn golygu tyfiant mwy trwchus ac o well ansawdd ddiwedd y tymor.

Mae dau o ffermwyr arddangos Rhaglen Datblygu Cig Coch Cyswllt Ffermio, sef Richard Rogers, Bodrida, Ynys Môn, a Keith Williams, Hendy, Powys, wedi derbyn yr her o wella'r defnydd o laswellt a lleihau gwastraff wrth fesur y glaswellt a defnyddio'r mesuriadau hyn i reoli'r pori.

Mae'r ffermwyr yn gweithio ar y cyd â thîm y Ganolfan Datblygu Tir Glas yn IBERS i edrych ar wahanol ddulliau o fesur glaswellt a chymharu tyfiant glaswellt ar dir glas newydd a hen. Defnyddir y canlyniadau i helpu i ddangos sut i wastraffu llai o laswellt a bod yn fwy effeithlon.



Ffermwyr G4ce: Keith Williams a Richard Rogers

Mae yna sawl ffordd wahanol o fesur uchder glaswellt - o ddefnyddio caniau cwrw (gwag neu lawn), marciau ar esgidiau wellington, ffyn mesur a gwiall tir glas i gyfarpar cyfrifiadurol ar gefn beiciau pedair-olwyn - a byddwn yn edrych ar y rhain i weld pa ffordd sydd orau ar gyfer pobl wahanol.

Rydym yn chwilio am ragor o ffermwyr i gymryd rhan yn y prosiect hwn. Cofiwch roi gwybod i dîm y Ganolfan Datblygu Tir Glas os hoffech gymryd rhan.

Byddwn yn cynnwys cwestiwn am bori ym mhob cylchlythyr. Felly, byddwch cystal ag anfon eich cwestiynau, yn barod ar gyfer ein cylchlythyr nesaf.

Leoliad ffermydd arddangos G4ce



Rhestr Termiau

- CS cynnwys sych
- EM egni metaboladwy
- PA protein amrwd

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn, cysylltwch â Sue Buckingham, Y Ganolfan Datblygu Tir Glas, IBERS, Aberystwyth, 01970 823058, e-bost seb2@aber.ac.uk

Mae'r Rhaglen Datblygu Cig Coch yn cael ei darparu gan Hybu Cig Cymru (HCC) ar ran Cyswllt Ffermio. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch HCC ar 01970 625050 neu ewch i www.hccmpw.org.uk

Ebrill 2011



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government